




HECW

HERITAGE CONSTRUCTION IN WALES

ADEILADU YM MAES TREFTADAETH YNG NGHYMRU



PARTNERIAID PROSIECT HECW



Cafodd y prosiect ei gyllido gan Fwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu a Cadw. Mae partneriaid y prosiect, sef Tree & Son Ltd, Just Lime Ltd, Andrew Scott Ltd, Cyngor Sir Caerfyrddin a Fforwm Adeiladau Traddodiadol Cymru, yn rhannu diddordeb cyffredin sef gwella'r ddarpariaeth o hyfforddiant a chymorth yn y Diwydiant Adeiladu ym maes Treftadaeth yng Nghymru

Lansiwyd y prosiect



CTD **FAM** **+Cadw** **Llywodraeth Cymru Welsh Government**

HeCW
HERITAGE CONSTRUCTION IN WALES
ADEILADU YM MAES TREFTADAETH YNG NGHYMRU

Launch event
Speakers to include Lord Elis-Thomas AM,
Minister for Culture, Tourism and Sport

COME ALONG TO HEAR ALL ABOUT THIS
NEW PAN-WALES PROJECT AND ENJOY
SOME TRADITIONAL SKILLS
DEMONSTRATIONS

24.07.18 | 3pm | The Traditional & Sustainable Building
Skills Marquee
Royal Welsh Showground, Llanellwedd, LD2 3SY
rsvp Ruth Rees on wtbfmail@gmail.com or 01558 824271

Cymru Sir Gâr Carmarthenshire **Tree & Sons** **Just Lime Ltd** **SCOTT**
Conservation Specialists

Lansiwyd y prosiect Adeiladu ym maes Treftadaeth yng Nghymru yn swyddogol ar 24 Gorffennaf 2018 gan yr Arglwydd Elis-Thomas AC, y Gweinidog dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon.

Cynhaliwyd y lansiad ar Faes y Sioe ym mhabell fawr Sgiliau Adeiladu Traddodiadol a Chynaliadwy Tŷ Mawr.

Roedd y siaradwyr yn cynnwys

- Yr Arglwydd Elis-Thomas AC, y Gweinidog dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon
- Mark Bodger, Cyfarwyddwr Partneriaethau Strategol Cymru (Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu)
- Nell Hellier, Uwch-swyddog Treftadaeth Adeiledig (Cyngor Sir Caerfyrddin)





Adeiladu ym maes Treftadaeth yng Nghymru - Cryfhau'r sector drwy hyfforddiant a chymorth

Cyflwynodd y prosiect Adeiladu ym maes Treftadaeth yng Nghymru gyfres o weithgareddau hyfforddi, addysg a rhwydweithio.

Nod y prosiect oedd gwella gallu ac ansawdd y sector drwy ddatblygu cronfa ddyfnach o gwmnïau sydd wedi'u hyfforddi, eu cymhwyso, sy'n gyfredol ac sydd wedi'u cysylltu.

Roedd y prosiect i fod i bara o fis Mai 2018 tan fis Mehefin 2022, ond daeth i ben ym mis Awst 2020 oherwydd argyfwng Covid-19.

Asesu a Hyfforddi ar y Safle

Roedd y cynllun yn cynnig cymorth i gontractwyr ym maes treftadaeth gymhwyso eu gweithlu drwy'r llwybr Asesu a Hyfforddi ar y Safle.

Cynigiwyd y cyfle i grefftwyr profiadol gael cydnabyddiaeth am eu sgiliau trwy gyflawni Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Lefel 3 mewn Swyddi Gwaith Coed, Plastro a Charegwaith ym maes Treftadaeth.

Cofrestrodd 12 dysgwr ar gyfer y prosiect Asesu a Hyfforddi ar y Safle cyn iddo ddod i ben. Roedd 28 lle ychwanegol ar gael pe bai'r prosiect wedi parhau.



Seminarau DPP



**CONSERVING WELSH
CHAPELS AND
CHURCHES
CONFERENCE**

**£25 PER PERSON - 7TH JUNE 2019
FFWRNES THEATRE LLANELLI**

**FUTURE OPTIONS FOR
OUR RELIGIOUS BUILDINGS**

- SETTING THE SCENE
- HISTORICAL SIGNIFICANCE
- MAINTENANCE, MATERIALS
AND REPAIR
- DESIGN AND CONVERSION
- CASE STUDIES



FUNDED BY

Energy Efficiency in Traditional Buildings

Half day CPD
at Tŷ-Mawr, Llangasty
on Saturday 22nd
September 2018

Free to attend

9am for prompt 9.30am start
Finish at 1pm with lunch

The course will examine the context for improving the energy efficiency of traditional buildings, and cover different perspectives with respect to improving the thermal performance of traditional buildings. It will focus on key practical considerations, such as appropriate assessment of older buildings, special considerations and limitations, the importance of choosing and using appropriate materials with visual and practical sessions to look at methods for insulating walls, floors and roofs through case studies and real life models. The course structure also provides ample opportunity for discussion and questions.

The agenda for the day will be:

- CPD
- Practical discussion (Q&As) and tour of buildings
- Lunch



HERITAGE CONSTRUCTION IN WALES
ADEILADU YM MAES TREFTADAETH YNG NGHŶMRU
**STRENGTHENING THE SECTOR THROUGH
TRAINING AND SUPPORT**



Picture credits:
Top: Jones & Fraser Ltd
Middle: Tŷ-Mawr Llangasty
Bottom: Sam Hale

Cefnogodd y prosiect dwf
cydnerthedd y cwmnïau
adeiladu llai ledled Cymru
trwy sicrhau eu bod yn profi
DPP ym maes treftadaeth, a
hynny'n berthnasol i'w
hanghenion.

**Trefnwyd 4 seminar diwrnod llawn ac 8
seminar hanner diwrnod yn y rhaglen
wreiddiol.**

Hyfforddiant a gynigiwyd - seminarau DPP



Cynhaliwyd y seminarau DPP canlynol:

- Arddangosfeydd Sgiliau Traddodiadol - **Maes y Sioe**, Gorffennaf 2018
- Effeithlonrwydd Ynni mewn Hen Adeiladau - Aberhonddu, Medi 2018
- Diogelu Capeli ac Eglwysi Cymru - Llanelli, Mehefin 2019
- Effeithlonrwydd Ynni mewn Hen Adeiladau - Y Drenewydd, Tachwedd 2019
- Ffair Gweithio ar Adeiladau Rhestredig - Llandeilo, Chwefror 2020

Diogelu Capeli ac Eglwysi Cymru

Lleoliad - Y Ffwrnes, Llanelli - enghraifft wych o
ailddefnyddio Capel segur.

74 o bobl yn bresennol (y targed oedd 50)

Gellir gweld adroddiad llawn, manylion gwerthuso
a recordiad ffilm o'r diwrnod trwy fynd i
<https://www.tywicentre.org.uk/news/conserving-welsh-chapels-and-churches-conference/>



  **HeCW**
HERITAGE CONSTRUCTION IN WALES
ADEILADU YM MAES TREFTADAETH YNG NGHYMRU

CONSERVING WELSH CHAPELS AND CHURCHES CONFERENCE

£25 PER PERSON - 7TH JUNE 2019
FFWRNES THEATRE LLANELLI

FUTURE OPTIONS FOR OUR RELIGIOUS BUILDINGS

- SETTING THE SCENE
- HISTORICAL SIGNIFICANCE
- MAINTENANCE, MATERIALS
AND REPAIR
- DESIGN AND CONVERSION
- CASE STUDIES
- EXAMPLES OF GOOD PRACTICE

 
FUNDLED BY
 **citb**

WWW.WTBF.CO.UK WTBFMAIL@GMAIL.COM

Trefnwyd y byddai'r seminar DPP nesaf yn cael ei gynnal ym mis Ebrill 2020.

'Deunyddiau priodol ar gyfer Adeiladau Traddodiadol' - diwrnod rhagarweiniol ar gyfer contractwyr adeiladu

Appropriate materials for traditional buildings



An introductory day
for Building Contractors

Plas Tan y Bwlch, Maentwrog
Blaenau Ffestiniog

3rd April 2020 9-4



3 Modiwl ar gyfer dysgu ar-lein

Datblygwyd tri modiwl, sy'n para awr yr un, i gefnogi'r gwaith o gyflawni diplomâu Lefel 3 mewn Asesu a Hyfforddi ar y Safle.

- Cynigir y modiwlau hefyd fel cyrsiau rhagarweiniol ac annibynnol i gontractwyr.
- Mae'r modiwlau wedi'u rhannu'n sesiynau byr, gyda chynnwys ysbrydoledig a deniadol o ansawdd uchel.
- Bydd pob modiwl ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Disgwylir i'r modiwlau gael eu lansio yn gynnar yn 2021.

HeCW CONSERVING OLD BUILDINGS - THE RATIONALE Introduction to module

WELCOME TO MODULE 1:
CONSERVING OLD BUILDINGS - THE RATIONALE

This short module will provide you with an introductory level of knowledge of how to read and understand old buildings.

When proposing any works to modify an older building it is important that it should first be properly understood.

This means understanding its construction, age and style; any legal protection that it may have; its special qualities as a building, and the way it features within its locality.

This module is split into the following three topics:

- Topic 1 - Understanding the history of old buildings
- Topic 2 - Understanding the principles of conservation
- Topic 3 - Understanding legislation relating to old buildings

HeCW MATERIALS AND METHODS FOR CONSERVING OLD BUILDINGS IN WALES Introduction to module

WELCOME TO MODULE 2:
MATERIALS AND METHODS FOR CONSERVING OLD BUILDINGS IN WALES

In the module 'Conserving buildings in Wales' we discuss the importance of understanding the significance of a historic building before making changes.

Equally important is the need to understand the physical behaviour of traditionally constructed buildings to minimise the risk of causing damage to the physical fabric of the building.

For a more detailed understanding it is recommended that you follow the Level 3 award in the 'Repair and Maintenance of Traditional (pre-1919) Buildings'

This module is split into the following four topics:

- Topic 1: The mechanics of old buildings
- Topic 2: Understanding Lime
- Topic 3: Appropriate repair and maintenance of traditional buildings
- Topic 4: Materials, construction methods and common defects

HeCW ENERGY SAVING AND RETROFIT IN TRADITIONAL BUILDINGS Introduction to module

WELCOME TO MODULE 3:
ENERGY SAVING AND RETROFIT IN TRADITIONAL BUILDINGS

This module will outline the key considerations relating to saving energy in traditional buildings.

For a more detailed understanding of energy saving schemes it is recommended that you attend a Level 3 Award in 'Energy efficiency and retrofit in traditional buildings' or similar training.

This module is split into the following topics:

- Topic 1 - What is energy efficiency and why is it important?
- Topic 2 - What is retrofit?
- Topic 3 - Why do older buildings need a special approach to retrofit?
- Topic 4 - Options for improving energy efficiency in traditional buildings.

1 of 43 Next

Gwobrau Lefel 3



Nod y Prosiect oedd
cyflawni'r canlynol:

- 8 x Dyfarniad Lefel 3
mewn Atgyweirio a
Chynnal a Chadw
Adeiladau Traddodiadol
(cyn 1919)
- 4 x Dyfarniad Lefel 3
mewn Ôl-osod
Effeithlonrwydd Ynni
Adeiladau Traddodiadol
(cyn 1919)

Gwobrau Lefel 3



Cynigiwyd y Dyfarniad Lefel 3 mewn Atgyweirio a Chynnal a Chadw yn y lleoliadau canlynol:

- Dolgellau
- Y Drenewydd
- Wrecsam
- Llanelli

Cynlluniwyd ar gyfer pedwar lleoliad arall

Roedd y cwrs Ôl-osod Effeithlonrwydd Ynni cyntaf i fod i gael ei gynnal ym mis Mai 2020. Bydd hwn yn cael ei ailrefnu ar gyfer mis Ebrill 2021.

Cynlluniwyd ar gyfer cynnal 3 arall.

Dyfarniad Lefel 3 mewn Atgyweirio a Chynnal a Chadw

DOLGELLAU

Cynhaliwyd y cwrs hwn mewn
adeilad rhestredig - Neuadd
Bentref Ganllwyd ym mis Ebrill
2019.

Ymwelodd y dysgwyr â thref
Dolgellau i edrych ar ddiffygion,
arddulliau a datblygiad
adeiladau dros amser.
Gwnaethant hefyd ymweld â
phrosiect adfer hardd, sef siop
Gwin Dylanwad Wine, fel
enghraifft o arfer da.

Mae ymweliadau safle hefyd yn
atgyfnerthu theori'r cwrs fel
deddfwriaeth a deall
egwyddorion cadwraeth.

Dilynwyd y fformat hwn ar gyfer
pob cwrs Dyfarniad Lefel 3.



Casgliad

Sefydlwyd y prosiect Adeiladu ym maes Treftadaeth yng Nghymru yn seiliedig ar ymgynghoriad yn y sector a amlygodd yr angen am DPP, addysg a hyfforddiant, creu rhwydweithiau cyfathrebu a'u cefnogi. Roedd hefyd yn cefnogi rhwymedigaethau'r cytundeb partneriaeth strategol rhwng Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu, Cadw, Historic England a Historic Scotland.

Rheolwyd y prosiect Adeiladu ym maes Treftadaeth yng Nghymru gan bartneriaeth rhwng contractwyr (Tree & Sons, Andrew Scott Ltd, Just Lime Ltd), Cyngor Sir Caerfyrddin a Fforwm Adeiladau Traddodiadol Cymru.

Roedd gan y dull partneriaeth hwn lawer o fanteision:

- Roedd contractwyr yn gallu adrodd ar eu blaenoriaethau o ran hyfforddiant a'r cymorth yr oedd ei angen ar y diwydiant i ffynnu.
- Mae Fforwm Adeiladau Traddodiadol Cymru yn sefydliad sydd wedi'i sefydlu ers to ac sy'n rhoi cymorth a gwybodaeth i gontractwyr a cheidwadwyr hen adeiladau. Galluogodd y rhwydweithiau hyn i'r bartneriaeth ymgysylltu'n gryf â gweithgareddau'r prosiect.
- Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin yn gallu cynnig rheoli a chydlynu'r cynllun.

Nod y prosiect Adeiladu ym maes Treftadaeth yng Nghymru oedd galluogi'r sector i siarad â llais unedig a bodloni gofynion uwchsgilio a DPP y grŵp hwn o gyflogwyr. Gwnaeth hyn trwy ddarparu rhaglen o weithgareddau uwchsgilio mewn lleoliadau ledled Cymru i gynulleidfaoedd ag ystod amrywiol o sgiliau - o gontractwyr sydd wedi gweithio ym maes treftadaeth ers nifer o flynyddoedd i'r rheiny nad oeddent erioed wedi gweithio gyda deunyddiau traddodiadol o'r blaen.

Conclusion

Cyn i'r prosiect ddod i ben, roedd y targedau o ran y cyrsiau a ddarparwyd a nifer y bobl sy'n ymroi i ddysgu yn cael eu cyrraedd a rhagorwyd arnynt yn aml. Nid yn unig yr oedd y prosiect wedi cyrraedd ei dargedau, ond roedd wedi creu buddion ychwanegol hefyd. Darparodd y prosiect Adeiladu ym maes Treftadaeth yng Nghymru ganolbwynt ar gyfer yr holl gyfleoedd hyfforddiant a rhwydweithio ledled Cymru. Roedd yn dod â darparwyr hyfforddiant ynghyd ac yn rhannu gwybodaeth berthnasol â chontractwyr. Roedd yn cyfeirio at sefydliadau treftadaeth eraill ac yn rhoi cymorth iddynt, er enghraifft Mentrau Treftadaeth Treflun yn Wrecsam a Blaenafon a gwneud cais am statws Treftadaeth y Byd ar gyfer trefi llechi Cymru ym Mlaenau Ffestiniog. Gweithiodd Ruth Rees, y Swyddog Prosiect, yn agos gydag ymgynghorwyr Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu a ffederasiynau adeiladu gan sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu â chontractwyr ym mhob cwr o Gymru.

Roedd gan y prosiect broblemau ar hyd y ffordd. Penodwyd David Somerfield yn asesydd ar gyfer y gwaith saer maen fel rhan o'r Asesu a Hyfforddi ar y Safle. Roedd David yn saer maen profiadol a thalentog tu hwnt a oedd yn dwlu ar rannu ei sgiliau a'i wybodaeth ag eraill. Bu farw yn anffodus ac roedd dod o hyd i rywun arall i ymgymryd â'r rôl hon yn heriol. Amlygodd hyn y diffyg o ran pobl â phrofiad a chymwysterau addas yng Nghymru i addysgu ac asesu sgiliau treftadaeth a'r angen i gael mwy o bobl i gymhwyso.

Er bod y prosiect Adeiladu ym maes Treftadaeth yng Nghymru wedi dod i ben yn gynharach na'r disgwyl, bydd yn gadael etifeddiaeth gref. Bydd yr adnoddau ar-lein ar gael am ddim fel rhagarweiniad i adeiladu ym maes treftadaeth. Mae dros 215 o unigolion wedi elwa o'r hyfforddiant a gobeithio y byddant yn parhau i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau yn y maes hwn. Mae pedwar o bobl a gwblhaodd y Dyfarniad Lefel 3 mewn Atgyweirio a Chynnal a Chadw wedi cofrestru ar gyfer Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Lefel 3 mewn Plastro ym maes Treftadaeth yn ddiweddar.

Bydd partneriaid y prosiect Adeiladu ym maes Treftadaeth yng Nghymru yn parhau i weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod hyfforddiant treftadaeth yng Nghymru yn parhau. Rydym yn ddiolchgar iawn ein bod wedi cael y cyfle hwn i weithio gyda Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu ar y prosiect hwn.